# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020

Amser: 09.32 - 11.09

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5988

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Siân Gwenllian AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | James Foreman-Peck, Prifysgol Caerdydd |
| Staff y Pwyllgor: | Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Gemma Gifford (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r tyst i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN1 - Ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru - 20 Chwefror 2020**

**2.2 PTN2 - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 - Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i argymhellion y Pwyllgor Cyllid - 28 Chwefror 2020**

## 3 Effaith amrywiadau yn y dreth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Sesiwn dystiolaeth 3

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro James Foreman-Peck, Athro Economeg, Prifysgol Caerdydd ar effaith amrywiadau yn y dreth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Effaith amrywiadau yn y dreth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Trafod y datganiad o egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol

6.1 Trafododd y Pwyllgor y datganiad o egwyddorion y mae'n disgwyl i gyrff a ariennir yn uniongyrchol ei ystyried wrth wneud cynigion cyllidebol, a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ym mis Mai 2019. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y cyrff a ariennir yn uniongyrchol i gadarnhau pwysigrwydd yr egwyddorion hyn, cyn y rownd nesaf o gynigion cyllidebol.

## 7 Taliadau cadw yn y sector adeiladu: Trafod y llythyr drafft

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar lythyr ar y cyd â Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch ei ymchwiliad i daliadau cadw yn y sector adeiladu.

## 8 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â newidiadau.